Awdurdod Addysg Lleol

Defnyddio'r Rhyngrwyd – Cytundeb

Medi 2003

Rhagarweiniad

Mae cyflwyno Band llydan drwy Rwydwaith Ardal Eang Abertawe (RhAEA) yn darparu mynediad cadarn ac agored i gynnwys cyfoethog y Rhyngrwyd yn ogystal â chyfleusterau fel Amgylcheddau Dysgu Rhithiol (ADRh) a Fideo Gynadledda. Yn y cyflwyno hwn, mae isadeiledd y Band Llydan yn derbyn cymorth grant gan Gynulliad Cymru ac yn cael ei reoli gan Brifysgol Abertawe. Mae'n cael ei drosglwyddo i'r Awdurdod Addysg Lleol drwy rwydwaith addysg yr Awdurdod wedi'i leoli yn Neuadd y Sir. Mae hyn yn gosod rhwymedigaeth ar yr Awdurdod i sicrhau bod pob defnydd dilynol o'r rhwydwaith Band Llydan yn dilyn polisïau defnydd derbyniol a bennwyd mewn cytundeb rhwng Dinas a Sir Abertawe a Chynulliad Cymru, yn seiliedig yn ei dro ar y cytundeb rhwng y Cynulliad ac UKERNA ar 13 Tachwedd 2002.

Mae'r egwyddorion hyn wedi'u nodi yng Nghanllawiau *JANET (*http://www.ja.net/documents/use.html*).* Yn y bôn, gall y Cynulliad dorri'r cysylltiad i'r Awdurdod – ac felly pawb sydd arno – os yw'n credu bod camddefnydd wedi digwydd rywle o fewn rhwydwaith yr Awdurdod.

Mae'r cytundeb hwnnw'n cynnwys amodau a rhwymedigaethau penodol sy'n seiliedig ar ymdrechion rhesymol gan yr Awdurdod ac unrhyw ddefnyddwyr dilynol o ran atal camddefnyddio. Mae "ymdrechion rhesymol" yn caniatáu ar gyfer peidio â gwario arian ar systemau er mwyn atal camddefnydd, ond mae'n canolbwyntio ar weithdrefnau a monitro.

Bydd ysgolion yn ymwybodol, er ei fod yn gyfle addysgol ardderchog, bod gan y rhyngrwyd ei broblemau. Drwy'r Rhyngrwyd a grwpiau newyddion, mae'n bosib cyrchu gwybodaeth annymunol gan gynnwys pornograffi a deunyddiau pedoffilia naill ai ar ddamwain neu'n fwriadol. Drwy linellau sgwrsio ac e-bost mae'n bosib i unrhyw un yn y byd gysylltu â phlant sydd â chyfeiriad e-bost. Mae hyn yn amlwg yn ofid mawr.

Yn ychwanegol at rwymedigaethau ysgolion i UKERNA, bydd yr Awdurdod yn gweithio tuag at gytuno ar gyfres o brotocoliau derbyniol ar gyfer darparu'r we, we-ddethol a'r defnydd o e-bost gan ysgolion er mwyn sicrhau nad yw system yr Awdurdod dan fygythiad na diogelwch y disgyblion.

Prif bwrpas y ddogfen hon, serch hynny, yw cynorthwyo i wneud defnydd cyfreithlon o gyflwyno'r Rhyngrwyd drwy Fand Llydan yng nghwrs busnes Dinas a Sir Abertawe mor effeithiol â phosib, a diffinio defnyddiau derbyniol ac annerbyniol Rhwydwaith Ardal Eang Abertawe.

Dylid darllen cyfres o Ganllawiau eraill, *Cyngor i'r Pennaeth ar ddefnyddio Technoleg y Rhyngrwyd*, mewn cydweithrediad â'r cytundeb hwn.

1. **Cydymffurfio**

1.1 Rhaid i Gorff Llywodraethu'r Ysgol neu'r Pennaeth lofnodi a dychwelyd y ffurflen dderbyn sy'n amgaeedig gyda'r ddogfen hon gan gydnabod y byddant yn glynu wrth yr egwyddorion a amlinellwyd ynddi.

2. **Defnyddiau Derbyniol**

2.1 Defnydd sy'n dderbyniol ac sy'n cael ei annog yw:

i) Cyfathrebu a chyfnewid gwybodaeth sy'n ymwneud yn uniongyrchol â nodau a busnes yr Awdurdod Addysg Lleol.

ii) Defnydd ar gyfer gweithgareddau ymchwil, dadansoddi, cynghori, proffesiynol neu ddatblygiad sy'n gysylltiedig â dyletswyddau'r staff.

iii) Defnydd tebyg gan ddisgyblion ar gyfer gweithgareddau'r cwricwlwm ac ymchwil personol sy'n gysylltiedig â diddordebau cyfreithlon.

2.2. Caniateir defnydd personol hefyd ar gyfer staff, cyhyd â'i fod yn

i) digwydd yn ystod amser personol aelodau'r staff, y tu allan i'r oriau craidd.

ii) cymryd lle heb unrhyw gost i'r Awdurdod.

iv) Nad yw unrhyw un o gyfeiriadau e-bost yr Awdurdod yn cael eu defnyddio.

v) Defnydd personol o gyfleuster Rhyngrwyd yr Awdurdod yn destun adolygu cyson a bydd yn cael ei ddileu os bydd yn cael ei gamddefnyddio.

2.3. **Defnydd Annerbyniol o JANET**

Ni ellir defnyddio JANET ar gyfer unrhyw un o'r canlynol:

i) Creu neu drosglwyddo (heblaw at ddibenion ymchwil cyfreithlon a oruchwyliwyd yn briodol) unrhyw ddelweddau, data neu ddefnyddiau eraill sy'n annymunol neu'n aflednais neu'n anweddus, neu unrhyw ddata sy'n gallu cael ei droi'n ddelweddau neu ddeunyddiau aflednais neu anweddus

ii) Creu neu drosglwyddo deunyddiau gyda'r bwriad neu sy'n debygol o beri annifyrrwch, trafferth neu boen meddwl diangen

iii) Creu neu drosglwyddo deunyddiau difenwol

iv) Trosglwyddo deunyddiau fel bo hyn yn torri hawlfraint person arall

v) Trosglwyddo deunyddiau hysbysebu neu fasnachol na ofynnwyd amdanynt naill ai i Sefydliadau Defnyddwyr eraill, neu i sefydliadau sy'n gysylltiedig â rhwydweithiau eraill, ar wahân i achosion lle mae'r deunydd hwnnw yn rhan hanfodol, neu sy'n rhan o, wasanaeth y mae'r aelod o'r Sefydliad Defnyddwyr wedi dewis tanysgrifio iddo

vi) Mynediad bwriadol heb awdurdod i gyfleusterau neu wasanaethau sy'n hygyrch drwy JANET

vii) Gweithgareddau bwriadol gydag unrhyw un o'r nodweddion canlynol:

- Gwastraffu ymdrech staff neu adnoddau rhwydweithio, gan gynnwys amser ar systemau sy'n hygyrch drwy JANET ac ymdrech y staff dan sylw wrth gefnogi'r systemau hynny;
- Llwgrwobrwyo neu ddinistrio data defnyddwyr eraill;
- Bradychu preifatrwydd defnyddwyr eraill;
- Amharu ar waith defnyddwyr eraill;
- defnyddio JANET mewn ffordd sy'n gwarafun y gwasanaeth i ddefnyddwyr eraill (er enghraifft, gorlwytho bwriadol neu ddifeddwl o gysylltiadau hygyrchu neu newid cyfarpar);
- parhau i ddefnyddio eitem o feddalwedd neu galedwedd rhyngweithio ar ôl i UKERNA ofyn bod defnydd ohono'n cael ei atal oherwydd ei fod yn amharu ar weithrediad cywir JANET;
- camddefnydd arall o JANET neu adnoddau rhyngweithio, fel cyflwyno "feirysau".

- Pan fydd JANET yn cael ei ddefnyddio i gyrchu rhwydwaith arall, bydd unrhyw gamddefnydd o bolisi defnydd derbyniol y rhwydwaith hwnnw yn cael ei ystyried fel defnydd annerbyniol o JANET.

2.4 Defnyddiau eraill sy'n annerbyniol yw cyrchu, defnyddio, cyflwyno, cyhoeddi, arddangos, lawrlwytho neu drosglwyddo unrhyw wybodaeth sy'n:

i) torri unrhyw un o reoliadau'r Awdurdod.

ii) Cyfyngu neu'n rhwystro defnyddwyr eraill rhag defnyddio'r system neu effeithiolrwydd systemau cyfrifiadurol yr Awdurdod.

iii) Arwain at olygu heb awdurdod dudalennau we yr Awdurdod.

3. Awdurdod Addysg Lleol Abertawe

3.1 as a Sir Abertawe yn cadw'r hawl i osod system dethol wrth gyflwyno cynnwys y we ar y rhwydwaith Band Llydan ar lefel y mae'n ystyried sy'n briodol

3.2 Mae Dinas a Sir Abertawe yn cadw'r hawl i fonitro a recordio holl weithgarwch y Rhyngrwyd, gyda rhybudd a hebddo, ac felly nid yw defnyddio cyfleusterau Rhyngrwyd yr Awdurdod yn breifat.

3.3 Cedwir yr hawl gan Ddinas a Sir Abertawe i wrthod mynediad i'r rhwydwaith yn ôl ei ddisgresiwn, os yw o'r farn ei fod yn cael ei ddefnyddio'n amhriodol, neu bydd yn cymryd mesurau ataliol i ddiogelu'r rhwydwaith rhag ymosodiadau feirws.

DINAS A SIR ABERTAWE

Awdurdod Addysg Lleol

Defnyddio'r Rhyngrwyd - Cytundeb Ysgolion

Rwyf i _____ o Ysgol _____ wedi darllen y Cytundeb Defnydd Derbyniol hwn ac yn cytuno i gydymffurfio â'r holl amodau.

Llofnod: _____

Swydd: _____

Dyddiad: _____

Dychweler at:

Gail Lewis
Room G.1.15
Swansea Education Authority
County Hall
Oystermouth Road
Swansea
SA1 3SN

Mae'n dderbyniol llenwi a dychwelyd yn electronig at gail.lewis@swansea.gov.uk